**Ysgoloriaeth Noddfa**

**Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr**

**Sut gallaf gyflwyno cais?**

Gallwch gyflwyno cais am Ysgoloriaeth Noddfa drwy gyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau a thystiolaeth ategol i: SanctuaryScholarship@abertawe.ac.uk cyn dyddiad cau'r cais, **4pm ddydd Iau 6ain Mehefin 2024.**

Yn gyntaf, bydd angen bod gennych gynnig amodol neu ddiamod i astudio ym Mhrifysgol Abertawe ar gwrs perthnasol. Mae Future Learn yn cynnig cwrs ar-lein am ddim i helpu ceiswyr lloches drwy'r broses cyflwyno cais i brifysgolion y DU.

**A ydw i'n gymwys i gyflwyno cais am yr Ysgoloriaeth Noddfa?**

Rydych chi'n gymwys i gyflwyno cais am yr Ysgoloriaeth Noddfa os yw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych chi'n Unigolyn sy'n Ceisio Lloches yn y DU
- Rhoddwyd caniatâd i chi aros yn y DU yn ôl disgresiwn neu Ddiogelwch Dyngarol
- Rydych chi'n bartner/ddibynnydd wedi'ch cynnwys ar gais ceisiwr lloches yn y DU*

**Sylwer: Rhaid bod partneriaid priod/sifil yn bartneriaid priod/sifil ar ddyddiad cyflwyno'r cais am loches. Rhaid bod plant/llys-blant dan 18 oed ar ddyddiad cyflwyno'r cais am loches.*

***AC***

- Mae gennych gynnig amodol neu ddiamod gan Brifysgol Abertawe am fynediad ym mis Medi 2023 i gwrs gradd Meistr Ôl-raddedig a Addysgir.
- Rydych chi'n bodloni gofynion sylfaenol yr IELTS sy'n gysylltiedig â'ch cynnig am le ar y cwrs, a holl amodau eraill eich cynnig, ac rydych chi'n cytuno i ymgymryd â phrawf SWELTS i bennu'ch statws IELTS fel rhan o'r broses cyflwyno cais, os bydd angen.
- Rydych chi wedi cael eich asesu gan Dîm Derbyn y Brifysgol fel rhywun sy'n chwilio am loches ac felly wedi'ch ystyried yn fyfyriwr rhyngwladol.
- Rydych chi wedi cael eich asesu gan Dîm Cydymffurfio a Rhyngwladol@BywydCampws fel unigolyn sy'n ceisio lloches gyda'r hawl i astudio yn y DU.
- Rydych chi'n mynychu ysgol, coleg neu grŵp cymunedol neu wirfoddol ar hyn o bryd a fyddai'n gallu rhoi geirda i gefnogi eich cais.
- Rydych chi'n byw o fewn pellter addas i allu cymudo'n ddidrafferth i'r Brifysgol (mae tocyn bws Bae Abertawe yn rhan o ddyfarniad yr ysgoloriaeth).
- Nid oes angen cymorth gyda chostau llety na chynhaliaeth arnoch.
  Rydych chi'n gallu talu eich treuliau byw, teithio ac astudio o'r ariantal a ddyrannwyd neu rydych chi'n gallu ychwanegu at yr ariantal i dalu eich costau byw.
  • Rydych chi'n gallu sicrhau llety priodol sydd o fewn pellter teithio addas o'r Brifysgol neu'n gallu cymudo o'ch lleoliad presennol.
  • Rhoddir blaenoriaeth i'r ymgeiswyr hynny nad oes ganddynt gymhwyster ar lefel gyfwerth ar hyn o bryd.
  • Roedd gennych chi statws Ceisiwr Lloches cyn cyflwyno cais am yr ysgoloriaeth.
  • Ni fydd arian ychwanegol ar gael i dalu am gyfnodau estyniad, gohirio, ailgyflwyno neu amgylchiadau eraill.
  • Dyddiadau talu'r ariantal i'w cadarnhau.

Ni chaiff ymgeiswyr nad ydynt yn bodloni'r holl feini prawf eu hystyried i fod yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth. Anogir ymgeiswyr nad ydynt yn siŵr o'u cymhwysedd i e-bostio:

SanctuaryScholarship@abertawe.ac.uk am ragor o gyngor.

**A oes angen i mi gwblhau pob rhan o'r ffurflen gais?**

Oes. Cwblhewch yr holl rannau o'r ffurflen gais yn llawn, gan gynnwys y Manylion Personol, Addysg, Gwybodaeth Ategol, Datganiad Personol, Cyfleoedd Cyfartal, Datganiad Canolwr a'r Datganiad.

Sylwer ei bod hi'n hanfodol i chi gwblhau holl rannau'r ffurflen gais, a darparu gwybodaeth gywir. Rhaid i chi lofnodi* a dyddio'r datganiad cyn cyflwyno eich ffurflen gais, a rhaid i chi sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ategol ei chyflwyno ar y cyd â'ch ffurflen gais. (*Mae llofnodion digidol yn dderbyniol).

Sylwer y gall peidio â darparu gwybodaeth gyflawn a thystiolaeth ategol arwain at wrthod eich cais.

**Pryd dylwn i gyflwyno cais?**

Mae'r ffenestr cyflwyno cais yn agor ddydd dydd Llun 29 Ebrill a bydd ar agor am 9 wythnos. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am **4pm ddydd Iau 29 Mehefin, 2023.** Yn ogystal, rhaid cynnwys tystiolaeth ategol yn eich cais ar adeg ei gyflwyno. Ni chaiff ceisiadau ar ôl y dyddiad hwn eu derbyn.

**Pa dystiolaeth y mae ei hangen arnaf i gefnogi fy nghais?**

Yn ogystal â'r ffurflen gais wedi'i llenwi, rhaid i ymgeiswyr hefyd gyflwyno'r canlynol:

- Datganiad personol
- Copi o lythyr cynnig gan Brifysgol Abertawe
- Llythyr geirda gan rywun â statws parchus sy'n ymwybodol o'ch amgylchiadau ac sy'n gallu cadarnhau eich addasrwydd i astudio gradd Meistr Ôl-raddedig a Addysgir (er enghraifft, athro neu hen athro, aelod o grŵp cymunedol neu sefydliad sydd wedi bod yn eich cefnogi, etc).
- Tystiolaeth o statws mewnfudo presennol/ar y gweill.*

*Mae cymhwysedd i gyflwyno cais am yr ysgoloriaeth yn amodol ar gael cadarnhad llwyddiannus o statws mewnfudo'r myfyriwr ar adeg y cais, a bydd yn rhaid i dderbynnydd llwyddiannus yr ysgoloriaeth ailgadarnhau ei statws mewnfudo cyn cofrestru ar ei radd Meistr Ôl-raddedig a Addysgir.

Bydd angen i chi anfon yr HOLL dystiolaeth uchod, ynghyd â'r ffurflen gais, cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

**Roedd fy nghais yn aflwyddiannus – allaf apelio?**

Gallwch. Bydd gennych 3 diwrnod gwaith o adeg derbyn y penderfyniad am ganlyniad eich cais Ysgoloriaeth Noddfa i apelio.

Rhaid cyflwyno apeliadau yn ysgrifenedig i: SanctuaryScholarship@abertawe.ac.uk a rhaid i chi gynnwys tystiolaeth ategol lle y bo'n berthnasol. Er enghraifft, os yw eich cais wedi bod yn aflwyddiannus oherwydd nad oeddech chi wedi darparu'r ddogfennaeth ategol berthnasol, megis datganiad gan ganolwr, bydd gennych chi 3 diwrnod gwaith i gyflwyno'r ddogfennaeth ategol hon.

Sylwer mai penderfyniadau terfynol yw'r rhai a wneir gan Dimoedd Cydymffurfiaeth a Rhyngwladol@BywydCampws y Brifysgol ynghylch statws mewnfudo myfyriwr a'i hawl i astudio yn y DU, oni bai y gallwch chi ddarparu tystiolaeth newydd mewn perthynas â'ch hawl gyfreithiol bresennol i aros ac astudio yn y DU.